Cymru Ifanc
Young Wales

Gorffennaf 2018

This briefing is bilingual, click here for the English version.

Croeso i gylchlythyr Cymru Ifanc

Gwaith cyfranogi yw Cymru Ifanc wedi'i gynnal gan Blant yng Nghymru a'n sefydliadau partner, a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Bydd Cymru Ifanc yn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed am faterion sy'n bwysig iddynt hwy, a bod y materion hyn yn cael eu clywed gan Lywodraeth Cymru'n arbennig.

Fesul mis byddwn yn dod â'r newyddion diweddaraf i chi, yn cynnwys diweddariadau am y gwaith sy'n cael ei wneud gan fforymau a grwpiau eraill ledled Cymru.

Os hoffech gyfrannu unrhyw beth, e-bostiwch info@childreninwales.org.uk.

Contents

1. Arolwg a Sesiwn Hawl i Holi ar Brexit i Bobl Ifanc
2. Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn lansio ymchwiliad i Fagloriaeth Cymru
3. UNICEF a Eurochild yn lansio arolwg ar yr Ewrop a Garai Plant
4. Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar gynigion i leihau allydriadau Cymru
5. Panel Ymgynghorol Ieuenctid Into Film Cymru yn chwilio am aelodau newydd
6. 'Peidiwch â Dal yn Ôl': Adroddiad newydd ar bontio i oedolaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru

---

Arolwg a Sesiwn Hawl i Holi ar Brexit i Bobl Ifanc

I gael gwybod barn pobl ifanc ar Brexit, mae Cymru Ifanc (menter gyfranogi Plant yng Nghymru) wedi llunio arolwg a bydd yn cynnal sesiwn Hawl i Holi ym mis Hydref.

Bydd cyfle i bobl ifanc rhwng 10 ac 20 mlwydd oed holi'r Gweinidog dros Blant, Huw Irranca-Davies AC, ac arbenigwyr perthnasol yn y digwyddiad Hawl i Holi. Bydd y sesiwn yn cael ei chadeirio gan James Williams, Gohebydd Brexit BBC Cymru Wales.

Yn ogystal, mae arolwg Brexit Cymru Ifanc yn holi ble mae pobl ifanc yn cael eu gwybodaeth am Brexit, beth yw eu pryderon, a beth yw eu barn ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Gallwch ateb yr arolwg yma. Bydd ar gael tan ddiwedd mis Awst.

Ceir mwy o wybodaeth am y digwyddiad Hawl i Holi yma, a bydd mwy o fanylion yn cael eu cadarnhau ddechrau mis Medi.

Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn lansio ymchwiliad i Fagloriaeth Cymru

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi lansio ymchwiliad i fanteision ac anfanteision Bagloriaeth Cymru.

Bydd y Pwyllgor yn edrych ar sut mae'r Fagloriaeth o fudd i ddysgwyr, addysg uwch a chyflogwyr. Maen nhw eisiau clywed gan unrhyw un gafodd ddewis astudio Bagloriaeth Cymru o 2015 ymlaen.

Mae'r Pwyllgor wedi cynhyrchu arolygon i fyfyrwyr a rhieni/gwarcheidwaid eu llenwi.

Bydden nhw'n hoffi clywed gan fyfyrwyr beth yw eich teimladau am astudio Bagloriaeth Cymru, ac a ydych chi'n meddwl y bydd hynny o fudd i'ch addysg, eich cyflogaeth a'ch bywyd.

Gan rieni/gwarcheidwaid, maen nhw'n awyddus i glywed eich barn am y cymhwyster a'i fanteision neu ei anfanteision i'ch plentyn.

Bydd yr arolwg yn parhau tan 20 Medi 2018, a gallwch lenwi'r arolwg yma.

Mae cyfleoedd hefyd i athrawon a chyflogwyr gael rhoi eu barn. Bydd digwyddiadau bord gron i athrawon yn cael eu trefnu ar gyfer yr hydref; cysylltwch â sally.jones11@assembly.wales i gael rhagor o wybodaeth. Gall cyflogwyr gyrchu safle trafod ar-lein, ac mae'r ymgynghoriad cyffredinol ar agor i sefydliadau eraill a'r cyhoedd yma.

UNICEF a Eurochild yn lansio arolwg ar yr Ewrop a Garai Plant

Ar 06 Mehefin 2018, lansiodd Eurochild a UNICEF arolwg ar-lein i gasglu barn plant a phobl ifanc ynghylch dyfodol Ewrop.

Mae arolwg 'Yr Ewrop a Garai Plant' yn cynnwys pynciau fel profiad plant o fywyd teuluol, yr ysgol, cymdeithas, a'u meddyliau ynghylch Ewrop. Mae wedi'i ysgrifennu mewn iaith sy'n ddealladwy i blant, yn y gobaith y bydd hynny'n annog rhai o dan 18 oed i ymateb.

Datblygwyd yr arolwg gan arbenigwyr hawliau plant, ac mae ysgolion a chyrff eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn cael eu hannog i ddefnyddio'r canllawiau a ddarparwyd i ysgogi trafodaethau ar y cwestiynau.

Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal tan 21 Medi 2018.

Gallwch chi ymateb i'r arolwg yma, ac mae rhagor o wybodaeth ar wefan Eurochild.

Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar gynigion i leihau allyriadau Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ei chynigion newydd i leihau allyriadau yng Nghymru gan 80% yn 2050.

Mae'r cynigion yn disgrifio'r targedau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gosod rhwng nawr a 2050, (i'w cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol) a'r cynlluniau bydd yn eu defnyddio i leihau allyriadau.

Dywed Llywodraeth Cymru fod cyfran fawr o ynni Cymru yn dal i ddod o danwyddau ffosil a bod gennym gyfran uchel o ddiwydiant trwm yng Nghymru, a bod nifer o heriau eraill sy'n benodol i Gymru.

Mae cynigion Llywodraeth Cymru yn cynnwys cynyddu nifer y ffynonellau adnewyddadwy ynni sy'n cael eu defnyddio i eneradu pwer yng Nghymru, creu rhwydwaith teithio dim carbon, annog pobl yng Nghymru i ddefnyddio cerbydau trydanol, ac archwilio a defnyddio technoleg newydd mewn dulliau effeithiol i helpu i leihau ein hallyriadau.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn gofyn i bobl ifanc yn benodol am eu barn ar y cynigion. Mae fersiwn o'r ymgynghoriad sy'n addas i bobl ifanc, sydd ar gael yma, ac ar ddiwedd y ddogfen honno, arolwg byr i bobl ifanc ei lenwi.

Bydd yr ymgynghoriad ar waith tan 04 Hydref 2018.

Gallwch ddarllen yr ymgynghoriad llawn, yma.

Panel Ymgynghorol Ieuenctid Into Film Cymru yn chwilio am aelodau newydd

Elusen addysgol yw Into Film sy'n ceisio rhoi ffilm wrth galon profiad dysgu a diwylliannol plant a phobl ifanc. Mae eu rhaglen sy'n cwmpasu'r DU gyfan yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc 5-19 oed weld, meddwl, gwneud a dychmygu - gan gyfrannu at eu datblygiad addysgol, diwylliannol, creadigol a phersonol.

Mae Into Film yn cefnogi dysgu apelgar drwy ddarparu:

- Hyfforddiant DPP ar sail ffilm ar gyfer athrawon dan themâu gwneud ffilmiau a llythrennedd o ran ffilmiau
- Adnoddau addysgol i helpu athrawon i ddefnyddio ffilm yn yr ystafell ddosbarth
- Digwyddiadau rhyngweithiol sy'n ysbrydoli, dan arweiniad y diwydiant
- Cymorth i gynnal clybiau ffilmiau allgyrsiol rheolaidd - gall y rhain fod yn sgriniadau dan thema neu ddim ond am adloniant
- Mynediad i Wyl Into Film: yr wyl ffilm ieuenctid fwyaf yn y byd

Er mwyn gwella a chyfoethogi eu darpariaeth, mae gan Into Film Banel Ymgynghorol Ieuenctid i Gymru hefyd - rhwng 15 ac 20 o bobl ifanc 11-18 sy'n dod ynghyd 3 i 4 gwaith y flwyddyn (yng Nghaerdydd) i roi adborth am ein gwaith a llywio'n gweithgareddau yn y dyfodol. Yn ogystal, maent yn cynnig cyfleoedd i'r bobl ifanc hyn ddysgu mwy am y diwydiant ffilmiau drwy gymryd rhan mewn gweithdai gwneud ffilmiau, dysgu am adolygu ffilmiau, prosesau cynhyrchu ffilmiau a mynychu digwyddiadau gyda dawn y diwydiant ffilmiau.

Ar hyn o bryd mae Into Film yn chwilio am aelodau newydd ar gyfer 18/19 ac mae'n bosib gwneud cais drwy eu gwefan: https://www.intofilm.org/youth-advisory-council

Bydd Into Film yn talu'r holl gostau teithio i bob cyfarfod a digwyddiad i'r myfyrwyr a'u hebryngwyr.

'Peidiwch â Dal yn Ôl': Adroddiad newydd ar bontio i oedolaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru

Mae Comisiynydd Plant Cymru, Sally Holland, wedi cyhoeddi ei hadroddiad i mewn i bontio i oedolaeth i bobl ifanc ag anableddau dysgu.

Mae'r adroddiad yn casglu profiadau pobl ifanc, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol am yr angen i'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus wneud yn siwr bod nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Act 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu gweithredu o ran y gefnogaeth a roddir i bobl ifanc ag anableddau dysgu.

Mae 'Peidiwch â Dal yn Ôl' yn adrodd y bu cyfranogiad pobl ifanc mewn cynllunio a gwneud penderfyniadau amdanynt yn isel, a'u bod yn wynebu newidiadau sylweddol mewn cymorth ar ôl troi'n ddeunaw am fod trothwyon gwahanol yn cael eu defnyddio ar ôl yr oedran hwnnw, ymhlith materion eraill.

Mae'r adroddiad yn gofyn bod sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn gallu cymryd eu lle fel dinasyddion gweithgar yn greiddiol i wasanaethau.

Gallwch ddarllen yr adroddiad yn llawn yma, ynghyd â fersiwn hawdd ei deall, yma.

Cymru Ifanc
Young Wales

July 2018

Welcome to the Young Wales newsletter

Young Wales is the participation work that is being run by Children in Wales and our partner organisations, and is funded by the Welsh Government.

Young Wales will ensure that children and young people are heard on issues that are important to them, and in particular that these issues are heard by the Welsh Government.

Each month we will bring you the latest news, including updates on the work that is being done by forums and other groups across Wales.

If you have anything you'd like to contribute, please email info@childreninwales.org.uk.

Contents

1. Young People's Brexit Survey & Question Time
2. Children, Young People and Education Committee launch Welsh Baccalaureate Inquiry
3. UNICEF & Eurochild launch survey on the Europe Kids Want
4. Welsh Government seeks views on proposals to reduce Wales' emissions
5. Into Film Cymru Youth Advisory Panel for Wales seeks new members
6. 'Don't Hold Back'; New report on transitions to adulthood from Children's Commissioner for Wales

---

Young People's Brexit Survey & Question Time

To discover the views of young people on Brexit, Young Wales, (Children in Wales' participation initiative) has produced a survey and will be hosting Question Time in October.

Young people between 10 and 20 will have the opportunity to quiz Minister for Children, Huw Irranca-Davies AM and relevant experts, at the Question Time event, which will be chaired by James Williams, BBC Cymru Wales Brexit Correspondent.

In addition the Young Wales Brexit survey covers where young people get their information about Brexit, what their concerns are, and what they think of the Welsh Government's priorities.

You can take the survey here. It will run until the end of August.

There is more information about the Question Time event here, and further details will be confirmed in early September.

Children, Young People and Education Committee launch Welsh Baccalaureate inquiry

The National Assembly for Wales Committee on Children, Young People and Education has launched an inquiry into the benefits and disadvantages of the Welsh Baccalaureate (Welsh Bacc).

The Committee will examine how the Baccalaureate benefits learners, higher education and employers. They want to hear from anyone who had the option to study the Welsh Bacc from 2015 onwards.

The Committee has produced surveys for students and parents/guardians to complete.

They would like to hear from students how you feel about studying the Welsh Bacc and whether you think it will be beneficial to your education, employment and life.

From parents/guardians, they would like to hear your views of the qualification and its benefits or disadvantages for your child.

The survey will run until the 20th September 2018, and you can complete the survey here.

There are also opportunities for teachers and employers to have their say. Roundtable events for teachers will be arranged for the autumn, please contact sally.jones11@assembly.wales for more information. Employers have access to an online discussion space, and the general consultation is open to other organisations and the public here.

UNICEF & Eurochild launch survey on the Europe Kids Want

On 06 June 2018, Eurochild and UNICEF launched an online survey to capture the views of children and young people on the future of Europe.

'The Europe Kids Want' survey includes topics like children's experience of family-life, school, society, and their thoughts on Europe. It is written in child friendly language, in the hopes that this will encourage responses from under 18's.

The survey was developed by children's rights experts, and schools and other bodies working with children and young people are being encouraged to use the provided guidelines to stimulate discussions on the questions.

The survey will run until the 21 September 2018.

You can respond to the survey here, and there is more information on the Eurochild website.

Welsh Government seeks views on proposals to reduce Wales' emissions

The Welsh Government has opened a consultation on their new proposals to reduce emissions in Wales by 80% in 2050.

The proposals describe the targets that the Welsh Government will set between now and 2050, (to be approved by the National Assembly) and the plans that they will use to reduce emission.

The Welsh Government says a large proportion of Wales' energy still comes from fossil fuels and that we have a high proportion of heavy industry in Wales, and that there are a number of other challenges specific to Wales.

The Welsh Government's proposals include increasing the number of renewable sources of energy used to generate power in Wales, create a zero carbon travel network, encourage people in Wales to use electric vehicles, and to examine and use new technology in effective ways to help reduce our emissions.

The consultation also specifically asks young people for their views on the proposals. There is a young friendly version of the consultation, available here, and at the end of that document, a short survey for young people to fill out.

The consultation will run until 04 October 2018.

You can read the consultation in full, here.

Into Film Cymru Youth Advisory Panel for Wales seeks new members

Into Film is an education charity that seeks to put film at the heart of children and young people's learning and cultural experience. Their UK-wide programme provides 5-19 year olds with opportunities to see, think, make and imagine - contributing to their educational, cultural, creative and personal development.

Into Film supports engaging learning by providing:

- Film-based CPD training for teachers themed as filmmaking and film literacy
- Educational resources to help teachers use film in the classroom
- Inspirational and interactive industry-led events
- Support to run regular extra-curricular film clubs - these can be themed screenings or just for fun
- Access to the Into Film Festival : the largest youth film festival in the world

To enhance and enrich their provision Into Film also has a Youth Advisory Panel for Wales - between 15-20 young people aged 11-18 who come together 3 to 4 times a year (in Cardiff) to feedback on our work and steer our future activities. In addition, they provide opportunities for these young people to learn more about the film industry by taking part in filmmaking workshops, learning about film reviewing, film production processes and attend events with film industry talent.

Into Film is currently looking for new members for 18/19 and the application is available on their website: https://www.intofilm.org/youth-advisory-council

Into Film will cover all travel expenses for all meetings and events for both student and

chaperone.

'Don't Hold Back': New report on transitions to adulthood from Children's Commissioner for Wales

The Children's Commissioner for Wales, Sally Holland, has published her report into transitions to adulthood for young people with learning disabilities.

The report compiles the experiences of young people, parents and carers and professionals on the need for government and public services to make sure that the aims of the Social Services and Wellbeing (Wales) Act 2014 and the Well-Being of Future Generations (Wales) Act 2015 are implemented in the support given to young people with learning disabilities.

'Don't Hold Back' reports that the young people's participation in planning and decision making about them has been low, and that they face considerable changes in support after eighteen because different thresholds are used after that age, among other issues.

The report asks that ensuring that people with learning disabilities are able to take their place as active citizens is at the heart of services.

You can read the report in full here, along with and easy read version, here.